Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC70: Cyfiawnhad dros ddefnyddio'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Medi 2025**

CONWY

**”This document is also available in English.**

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor www.conwy.gov.uk/rldp Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir cael copi gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy’n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol am unrhyw agwedd ar y ddogfen hon cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar gryno-ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Cewch drwydded anghyfyngedig, ddirymiadwy, heb freindal i’r unig bwrpas o weld y Data Trwyddedig i ddibenion anfasnachol yn ystod y cyfnod y mae ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Nid oes gennych hawl i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu na darparu’r Data Trwyddedig i drydydd parti mewn unrhyw gyfrwng; a

Bydd hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon yn cael eu cadw ar gyfer Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 4

1.1 Adolygiad o'r CDLl........ 4

1.2 Canllawiau polisïau cynllunio cenedlaethol - Polisi Cynllunio Cymru 12 a TAN 6 ........ 4

1.3 Map Rhagweld ALC ar gyfer Cymru (fersiwn 2) a sut mae wedi dylanwadu ar Ddatblygu Strategaeth y CDLlN ........ 5

2. Methodoleg Asesu Safle Conwy mewn perthynas â Thir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ........ 6

3. Strategaeth ac ardaloedd twf y CDLlN........ 15

3.1 Strategaeth twf cynaliadwy'r CDLlN........ 15

3.2 Strategaeth Tai ........ 16

3.3 Strategaeth Gyflogaeth ........ 17

4. Dyraniadau safle arfaethedig - asesiad Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ........ 20

4.1 Cefndir ........ 20

4.2 Safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan (dyraniad tai/ysgol arfaethedig)........ 21

4.3 Safle 103 Tir ym Mryniau, Llandudno (dyraniad cyflogaeth arfaethedig)........ 25

4.4 Safle 91 Tir oddi ar Ffordd Pentywyn, Llanrhos (dyraniad tai arfaethedig) ........ 28

4.5 Safle 203: Queens Road, Llandudno (dyraniad tai arfaethedig)........ 30

4.6 Safle 68: Fferm Peulwys, Hen Golwyn (dyraniad tai arfaethedig)........ 32

4.7 Safle 56: Penloyn, Llanrwst (dyraniad tai arfaethedig) ........ 34

4.8 Crynodeb a Chasgliad ........ 36

Atodiad 1: Rhestr lawn o'r Safleoedd Ymgeisiol gan gynnwys dyraniadau arfaethedig, safleoedd sydd ar y gweill a safleoedd wedi'u graddio ........ 39

Atodiad 2: Safleoedd CDLlN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd - Dosbarthiad Tir Amaethyddol - sylwadau a dderbyniwyd gan LlC ar y safleoedd ymgeisiol ........ 47

**Ffigur 1 - dosbarthiad tir amaethyddol fesul is-ardal CDLl**........ 7
**Ffigur 2 – tir amaethyddol yn ardal CDLl Sir Conwy** ........ 8
**Ffigur 3 - tir amaethyddol yn is-ardal y Gorllewin CDLlN Conwy** ........ 9
**Ffigur 4 - tir amaethyddol yn is-ardal y Creuddyn CDLlN Conwy** ........ 10
**Ffigur 5 - tir amaethyddol yn yr is-ardal Ganolog CDLlN Conwy** ........ 11
**Ffigur 6 - tir amaethyddol yn is-ardal y Dwyrain CDLlN Conwy** ........ 12
**Ffigur 7 - tir amaethyddol yn yr is-ardal Wledig CDLlN Conwy** ........ 13
**Ffigur 8 – cyflenwad tai yng Nghonwy dros gyfnod y CDLlN** ........ 17
**Tabl 9 – Manylion ac amseriad dyraniadau cyflogaeth** ........ 19
**Ffigur 10 – Cyfanswm y tir amaethyddol o ansawdd Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar ddyraniadau CDLlN** ........ 36

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Adolygiad o’r CDLl

Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Hydref 2013. Roedd y Cynllun hwn yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan amlinellu ble, pryd a faint o ddatblygiadau newydd fyddai’n cael eu gweithredu dros gyfnod y Cynllun (2007 - 2022). Yn unol ag Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) 2005 fel y’u diwygiwyd yn 2015, mae Cyngor Conwy bellach yn adolygu’r CDLl. Cam sylweddol o’r broses adolygu yw gwahodd ac asesu safleoedd ymgeisiol ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Dylid felly darllen y papur hwn ar y cyd â Phapur Cefndir 6 - Asesiad Cyflawni Safleoedd.

## 1.2 Canllawiau polisïau cynllunio cenedlaethol - Polisi Cynllunio Cymru 12 a TAN 6

Mae polisïau cenedlaethol yn pwysleisio bod lleoliad ac ansawdd tir amaethyddol yn ffactor hanfodol a ddylai lywio dosbarthiad gofodol twf. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC 12) yn nodi bod "tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yn cael ei ystyried fel y "tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol." (PCC 12, 2024, Paragraff 3.58).

Wrth ystyried y drefn chwilio ac mewn polisïau cynllunio a phenderfyniadau rheoli datblygiad, dylid rhoi cryn bwyslais ar amddiffyn tir o’r fath rhag datblygiad, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy’n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o’r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny’n drech na’r ystyriaethau amaethyddol.

Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf (PCC 12, 2024, Paragraff 3.59 Nodyn Cyngor Technegol 6 2.1.6.) Dywed Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 paragraff 6.2, wrth baratoi cynlluniau datblygu ac ystyried ceisiadau cynllunio, dylai awdurdodau cynllunio ystyried ansawdd tir amaethyddol a ffactorau amaethyddol eraill a cheisio lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.  Mae TAN6 hefyd yn cyfeirio at y map Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) o ran ei ddefnydd mewn cynllunio strategol.

## 1.3 Map Rhagweld ALC ar gyfer Cymru (fersiwn 2) a sut mae wedi dylanwadu ar Ddatblygu Strategaeth y CDLlN

Rhyddhawyd Map Rhagweld ALC newydd ar gyfer Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r map hwn yn defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i ragfynegi gradd amaethyddol tir yn genedlaethol ac yn cynnwys data manwl am gyfresi pridd a haen arolwg ALC wedi'i diweddaru. Mae fersiwn 2.1 Nodyn Canllaw LlC (Mai 2021) sy'n cyd-fynd â'r Map ALC yn disgrifio pwrpas y map rhagweld hwn.

Mae'r Nodyn Canllaw'n nodi bod angen cynnal arolygon maes ar gyfer unrhyw dir sy'n debygol o fod o fewn Graddau 1, 2 neu 3a ar y map rhagweld ALC.  Mae'r Siart Llif Penderfyniadau Arolwg yn y Nodyn Canllaw'n dangos nad oes angen cynnal arolygon maes ar gyfer unrhyw dir sydd wedi'i nodi fel Graddau 3b, 4 a 5.  Ar ôl ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r adroddiad hwn, nodwyd hefyd nad oes angen cynnal arolwg maes ALC mewn perthynas â safleoedd sy'n llai na 1.0ha fel arfer, oni bai fod gwahaniaeth barn ynglŷn ag ansawdd y tir sydd dan sylw.  Mewn achosion felly, dylid ceisio cyngor gan yr ACLI/Gwasanaeth Cyngor Ansawdd Tir ar safleoedd sy'n llai na 1.0ha.  Wrth lunio strategaeth y CDLlN, ystyriwyd y mapiau rhagweld a'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas o'r cychwyn a threfnwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion polisi a swyddogion Gwasanaeth Cyngor Ansawdd Tir LlC i gael arweiniad.  Yn rhan o Bolisi Strategol 13 (SP/13) Rheoli Ffurf Aneddiadau, cafodd y broses asesu safleoedd cymalog fel mae PCC yn ei nodi ei hailadrodd, fel y cafodd y pwyslais sylweddol y dylid ei roi ar warchod y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. (Gweler paragraffau 3.14.3 a

3.14.4 yn natganiad ysgrifenedig y Strategaeth a Ffefrir.) Cafodd y dull hwn ei ddwyn ymlaen i'r cam archwilio gan y cyhoedd gyda'r gradd tir o ran y tir gorau a mwyaf amlbwrpas wedi'i gofnodi ar gyfer pob un o'r safleoedd ymgeisiol. Gwelwyd yn gynnar yn y broses fod rhywfaint o dir amaethyddol sydd o raddau gwell (graddau 1 a 2) i'w gael yn nes at yr arfordir, sef lle mae 90% o'r twf yn y CDLlN wedi'i gynllunio yn unol â'r ardaloedd twf sydd wedi'u nodi yng nghynllun Cymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r holl dir gorau a mwyaf amlbwrpas yn yr ardal wledig, lle bydd ond 10% o'r twf.

Mae adran nesaf y Papur Cefndir hwn yn egluro'r dull y mae CBS Conwy wedi'i ddefnyddio wrth asesu safleoedd ymgeisiol a'r angen i ystyried goblygiadau Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.

# 2. Methodoleg Asesu Safle Conwy mewn perthynas â Thir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

Gwahoddwyd perchnogion tir, asiantau, datblygwyr ac aelodau'r cyhoedd yn wreiddiol i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer safleoedd ymgeisiol fel rhan o broses y CDLlN yn 2018, cyn paratoi'r Strategaeth a Ffefrir. Yn dilyn hynny, rhwng 5 Awst a 30 Medi 2022, cyflwynodd y Cyngor wahoddiad arall ar gyfer safleoedd i'w hystyried ar gyfer 50% tai fforddiadwy. Derbyniwyd cyfanswm o 209 o safleoedd ymgeisiol, a gafodd eu hychwanegu at y rhestr a'u hasesu o ran eu haddasrwydd. Am ragor o fanylion am y fethodoleg asesu safle, gweler Papur Cefndir 6 yr Asesiad Cyflawni Safle. Bydd y papur hwn yn edrych yn fwy manwl ar sut cafodd y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ei ystyried fel rhan o'r broses asesu safleoedd ymgeisiol.

<u>Cam 1. Deall graddau'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yng Nghonwy</u>

Er mwyn cael y wybodaeth hon, defnyddiwyd y mapiau rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar Map Data Cymru. Sir wledig yw Conwy yn bennaf, gyda'r ardaloedd mwyaf poblog ar yr arfordir. Caiff y Dosbarthiad Tir


Amaethyddol ei fesur fel a ganlyn ar draws ardal y cynllun, a'i rannu'n is-ardaloedd ar gyfer y CDLl.

**Ffigur 1 - dosbarthiad tir amaethyddol fesul is-ardal CDLl**

| Gradd ALC | Cyfanswm yn ardal cynllun Conwy (ha) | Ardal y Gorllewin (ha) | Ardal y Creuddyn (ha) | Yr Ardal Ganolog (ha) | Ardal y Dwyrain (ha) | Yr Ardal Wledig (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 89.12 | 1.03 | 8.59 | 0 | 79.50 | 0 |
| **2** | 676.10 | 45.81 | 208.41 | 111.90 | 102.17 | 207.82 |
| **3a** | 9,333.90 | 91.71 | 1,204.17 | 398.46 | 734.43 | 6,904.70 |
| **3b** | 17,694.05 | 225.02 | 1,108.35 | 380.61 | 1,014.67 | 14,964.67 |
| **4** | 17,210.97 | 407.44 | 584.69 | 236.93 | 101.93 | 15,879.98 |
| **5** | 14,709.25 | 316.57 | 251.07 | 103.56 | 29.14 | 14,008.91 |
| **Ddim yn dir amaethyddol** | 7,189.96 | 89.00 | 384.84 | 165.16 | 392.66 | 6,158.01 |
| **Ardaloedd Trefol** | 3,208.90 | 237.47 | 1,115.65 | 931.08 | 751.46 | 173.25 |
| **Cyfanswm** | **70,112.25** | **1,414.04** | **4,865.76** | **2,327.70** | **3,205.95** | **58,297.33** |


Ffynhonnell: Ystadegau ansawdd tir amaethyddol Llywodraeth Cymru: awdurdodau cynllunio 2020.

### Ffigur 2 – tir amaethyddol yn ardal CDLl Sir Conwy





Ffynhonnell: [MapDataCymru](MapDataCymru) ([Trwydded Llywodraeth Agored](Trwydded Llywodraeth Agored))

## Ffigur 3 - tir amaethyddol yn is-ardal y Gorllewin CDLIN Conwy





Ffynhonnell: MapDataCymru (Trwydded Llywodraeth Agored)

### Ffigur 4 - tir amaethyddol yn is-ardal y Creuddyn CDLIN Conwy





Ffynhonnell: MapDataCymru (Trwydded Llywodraeth Agored)

### Ffigur 5 - tir amaethyddol yn yr is-ardal Ganolog CDLIN Conwy





Ffynhonnell: MapDataCymru (Trwydded Llywodraeth Agored)

**Ffigur 6 - tir amaethyddol yn is-ardal y Dwyrain CDLIN Conwy**




Ffynhonnell: MapDataCymru (Trwydded Llywodraeth Agored)

**Ffigur 7 - tir amaethyddol yn yr is-ardal Wledig CDLIN Conwy**




Ffynhonnell: MapDataCymru (Trwydded Llywodraeth Agored)

Cam 2: Nodi Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas neu safleoedd ymgeisiol y CDLIN

Gwiriwyd presenoldeb Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Graddau ALC 1 - 3a) ym mhob safle ymgeisiol (gweler rhestr lawn yn Atodiad 1). Ar gyfer y safleoedd a nodwyd fel rhai a oedd yn cynnwys Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ac a ystyriwyd fel arall yn briodol ar gyfer dyraniad posibl (safleoedd posibl, wedi'u dyrannu ac wedi'u graddio), cyflwynwyd y rhain i Lywodraeth Cymru (Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth) i geisio eu sylwadau ymgynghori. (Gweler Atodiad 2 Safleoedd CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd - Dosbarthiad Tir Amaethyddol). Roedd y sylwadau a gyflwynwyd yn awgrymu lle dylid comisiynu asesiadau ALC mwy manwl, er mwyn sefydlu ansawdd a chyfanswm y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar y safleoedd ymgeisiol yn gywir.

Cam 3. Hysbysu a cheisio gwybodaeth gan berchnogion tir/asiantau

Yn dilyn hyn, cysylltwyd â pherchnogion tir/asiantau'r safleoedd ymgeisiol i ofyn i arolygon ALC manwl gael eu cynnal. Darparodd pawb y cysylltwyd â hwy'r asesiadau angenrheidiol (mae'r asesiadau safle unigol ar gael i'w gweld fel rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar gyfer pob safle.)

Cam 4. Gwirio dilysrwydd a chyflawnrwydd yr asesiadau ALC

Unwaith y cafodd CBSC adroddiadau'r arolygon ALC, fe'u hanfonwyd ymlaen at Lywodraeth Cymru (Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth) i ddilysu canfyddiadau'r adroddiadau. Wedi i Lywodraeth Cymru dderbyn canfyddiadau adroddiadau'r arolygon ALC fel adlewyrchiad cywir o ansawdd tir amaethyddol ar y safleoedd, ystyriodd swyddogion polisi cynllunio CBSC y wybodaeth o ran Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn erbyn ystod o ffactorau er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys yn ymwneud ag addasrwydd safleoedd ar gyfer dyraniad. Amlinellir yr ystyriaethau hyn yn fras yng Ngham 5 isod, ond fe'u darperir mewn rhagor o fanylder mewn perthynas â phob safle yn Adran 4 y papur hwn.

Cam 5. Ystyriaethau allweddol o ran cydbwyso'r angen i ddiogelu Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn erbyn dyrannu tir ar gyfer tai a chyflogaeth

Mae'r rhestr isod yn grynodeb o'r ffactorau allweddol a ystyriwyd sydd wedi cael effaith sylweddol ar benderfyniadau yn ymwneud â dyrannu safleoedd sy'n cynnwys Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas:

- Cymru'r Dyfodol - Lleoliad ardaloedd twf
- PCC - Prawf cymalog (ynghlwm â'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas – paragraffau 3.58–3.59)
- PCC - Prawf cymalog (ynghlwm â defnydd masnachol a chanol trefi – paragraffau 4.3.18–4.3.22)
- Strategaeth Tai CDLIN - is-ardaloedd a dosbarthiad
- Strategaeth Gyflogaeth y CDLIN - dosbarthiad trefol / gwledig
- Lefel yr angen am dai fforddiadwy
- Perygl llifogydd
- Topograffeg
- Lletem las
- Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy
- Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy

Ystyrir pob un o'r ffactorau hyn mewn rhagor o fanylder dan bob cyfiawnhad safle yn adran 4, fodd bynnag, i roi rhagor o gyd-destun, ceir manylion pellach yn yr adran nesaf yn ymwneud â dull strategol ac ardaloedd twf y CDLIN.

# 3. Strategaeth ac ardaloedd twf y CDLIN

## 3.1 Strategaeth twf cynaliadwy'r CDLIN

Mae strategaeth twf y CDLIN yn cydbwyso'r newidiadau i boblogaeth ac aelwydydd dros gyfnod y cynllun sydd wedi arwain at yr angen am dai newydd, gyda chynlluniau ar gyfer rhagor o dwf cyflogaeth. Mae hefyd yn darparu'r isadeiledd sydd ei angen i gefnogi hyn ac yn cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae ychwaneg o fanylion ar gael yn PC01: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf.

Mae'r CDLIN yn canolbwyntio twf tai a chyflogaeth yn yr ardaloedd trefol mwy cynaliadwy, gyda lefel is i gefnogi'r cymunedau gwledig. Yn y Strategaeth a Ffefrir, cafodd y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ei ystyried yn

rhan o Bolisi Strategol 13 (SP/13) Rheoli Ffurf Aneddiadau, lle cafodd y broses asesu safleoedd cymalog fel mae PCC yn ei nodi ei hailadrodd, a'r pwyslais sylweddol y dylid ei roi ar warchod y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. (Gweler paragraffau 3.14.3 a 3.14.4 yn natganiad ysgrifenedig y Strategaeth a Ffefrir.) Cafodd y dull hwn ei ddwyn ymlaen i'r cam archwilio gan y cyhoedd gyda'r gradd tir o ran y tir gorau a mwyaf amlbwrpas wedi'i gofnodi ar gyfer pob un o'r safleoedd ymgeisiol. Gwelwyd yn gynnar yn y broses fod rhywfaint o dir amaethyddol sydd o raddau gwell (graddau 1 a 2) i'w gael yn nes at yr arfordir, sef lle mae 90% o'r twf yn y CDLlN wedi'i gynllunio yn unol â'r ardaloedd twf sydd wedi'u nodi yng nghynllun Cymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r holl dir gorau a mwyaf amlbwrpas yn yr ardal wledig, lle bydd ond 10% o'r twf.

## 3.2 Strategaeth Tai

Mae cyfanswm o 4,300 o gartrefi newydd (gan gynnwys lwfans wrth gefn o 20%) ar y gweill dros gyfnod y cynllun. Mae'n cynnwys:

- tai sydd eisoes wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun (cyflawniadau)
- tai sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ond heb eu hadeiladu eto (ymrwymiadau)
- safleoedd ar y gweill (ceisiadau CDLl cyfredol sy'n destun ceisiadau cynllunio heb eu penderfynu)
- safleoedd wedi'u dyrannu; a
- hap-safleoedd.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y bydd 4,300 o gartrefi newydd yn cael eu darparu dros gyfnod y cynllun.

Ffigur 8 – cyflenwad tai yng Nghonwy dros gyfnod y CDLIN

| Cydrannau o gyflenwad tai | Gorllewin | Creuddyn | Canol | Dwyrain | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr) | 85 | 480 | 440 | 375 | 60 | 1,435 |
| Unedau'n cael eu hadeiladu | 40 | 165 | 105 | 55 | 0 | 365 |
| Unedau gyda chaniatâd cynllunio | 15 | 85 | 195 | 150 | 15 | 460 |
| Safleoedd ar y gweill | 55 | 150 | 30 | 290 | 0 | 525 |
| Dyraniadau tai newydd | 145 | 260 | 300 | 0 | 100 | 1,330 |
| Hap-safleoedd mawr (10+) | 40 | 60 | 140 | 0 | 0 | 235 |
| Hap-safleoedd bach (<10) | 40 | 125 | 165 | 45 | 90 | 470 |
| **Cyfanswm darpariaeth tai** | **425** | **1,325** | **1,370** | **910** | **265** | **4,300** |

Sylwch: Mae'n bosibl' na fydd y niferoedd yn symio gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Straegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 3.3 Strategaeth Gyflogaeth

Caiff strategaeth gyflogaeth y CDLIN ei llywio gan sylfaen dystiolaeth ar ffurf papurau cefndir, gan gynnwys PC17 Cyflenwad Tir Cyflogaeth, PC18 Adolygiad Tir Cyflogaeth, PC19 Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy a PC61 Astudiaeth Canol Trefi'n Gyntaf. Y targed tir cyflogaeth cyffredinol yw 16.4 hectar (i ddarparu ar gyfer 1500 o swyddi), a gellir ystyried 9.26 hectar fel cyflenwad presennol, gyda 7.14 ychwanegol yn cael

ei ddarparu drwy ddyraniadau yn y CDLIN.  Mae’n rhaid i dir sy’n ffurfio cyflenwad tir cyflogaeth allu darparu rhaniad o 35% B1a/b a 65% B1c, B2 a B8.

Mae’r strategaeth yn nodi, yn unol â thwf tai, y dylai 90% o dir cyflogaeth fod wedi’i leoli yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, yn arbennig mewn ardaloedd â chysylltiadau da â’r A55.

O ystyried nad oes diddordeb wedi bod yn y safleoedd cyflogaeth gwledig a ddyrannwyd yn y CDLl cyfredol (2007–2022), ac yn unol â Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy, bwriedir i’r holl dir cyflogaeth a ddyrannir fod wedi’i leoli ar hyd yr arfordir, o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, fel mae’r Strategaeth a Ffefrir yn ei diffnio.

Mae’r cyflenwad tir cyflogaeth presennol yn cynnwys plotiau ac adeiladau gwag ar safleoedd cyflogaeth ar draws Conwy.  Ni fydd unrhyw ddyraniadau cyflogaeth presennol yn y CDLl cyfredol nad ydynt wedi cael eu datblygu yn cael eu hailddyrannu yn sgil problemau â’r gallu i’w cyflawni.  Fel y nodwyd yn PC17 Cyflenwad Tir Cyflogaeth, wrth ystyried y cyflenwad presennol, mae diffyg o ychydig dros 7 hectar y bydd angen mynd i’r afael ag o drwy ddyraniadau newydd yn y CDLIN.

Cyflwynwyd nifer cymharol fechan o safleoedd i’r broses safleoedd ymgeisiol i’w hystyried ar gyfer defnydd economaidd / masnachol (19 allan o 210 i gyd).  Unwaith y cafodd y safleoedd hyn eu hasesu yn erbyn cyfyngiadau amrywiol megis perygl llifogydd, a oeddent ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas, mynediad, cynaliadwyedd ac addasrwydd cyffredinol ar gyfer defnydd masnachol, dim ond 5 safle oedd ar ôl yn y broses.  Roedd tri o’r safleoedd hyn yn Chwarel Llanddulas, un ym Mryniau, un yn Llandudno, ac un yng Nghornel Glan Conwy.  Tynnwyd y safle olaf o’r broses safleoedd ymgeisiol yn sgil yr effaith ar y dirwedd o ran yr angen i’w gadw o fewn y dynodiad lletem las.  Mae’r tabl isod yn nodi’r dyraniadau cyflogaeth a gynigir:

Tabl 9 – Manylion ac amseriad dyraniadau cyflogaeth

| Rhif y safle | Enw'r safle a'i leoliad | Dosbarth defnydd | Camau Datblygu | Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas mewn hectarau | Maint mewn hectarau |
|---|---|---|---|---|---|
| 115 (1) | Chwarel Llanddulas, Ardal 1 | B1/B2/B8 | 2027-2029 | 0 | 0.8* |
| 115 (2) | Chwarel Llanddulas, Ardal 2 | B1/B2/B8 | 2028-2032 | 0 | 4* |
| 115 (3) | Chwarel Llanddulas, Ardal 3 | B1/B2/B8 | O 2032 ymlaen | 0 | 4* |
| 103 | Tir ym Mryniau rhwng Wormhout Way a Ffordd Conwy, Llandudno | B1 | 2028-2033 a thu hwnt | 3.85 | 3.85 |
| **Cyfanswm** | Pob safle | B1/B2/B8 | 2027-2033 a thu hwnt | **3.85** | **12.65** |

*Sylwer mai'r maint yw arwynebedd y tir y gellir ei ddatblygu gan ystyried y llwyfannau datblygu / ail-broffilio tir.

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'n bwysig nodi na fydd pob darn o dir o fewn ffigur 9 yn cael eu cyflwyno o fewn amserlen y CDLIN. Yn sgil yr amser a gymerodd i fabwysiadu'r cynllun a pharatoi'r ceisiadau cynllunio ac adeiladu'r platfformau datblygu hanfodol (yn Llanddulas), dim ond tua 7-8 hectar y gellir eu darparu hyd at 2033.


# 4. Dyraniadau safle arfaethedig - asesiad Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

## 4.1 Cefndir

Yn unol â gofynion PCC, mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o'r safleoedd dyranedig sy'n cynnwys Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (graddau 1, 2 a 3a). Y prawf polisi yw dangos 'angen pwysicaf' ac nad oes tir sydd wedi'i ddatblygu yn y gorffennol, neu dir mewn graddau amaethyddol is ar gael, neu fod gwerth amgylcheddol i dir gradd is sydd ar gael – sy'n bwysicach wedyn na'r ystyriaethau amaethyddol.

Dylid nodi nad yw pob safle a ddyrannir yn cynnwys Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, ac felly nad yw pob dyraniad yn ymddangos yn yr adran hon.  I weld rhestr lawn o'r safleoedd a ddyrannwyd, yn eu trefn, a'r safleoedd ar y gweill, gweler Atodiad 1.  Hefyd, cafodd rhai dyraniadau arfaethedig sydd yn yr adran hon, h.y. Safleoedd 157 Caeffynnon, Llanfairfechan a 91 Tir oddi ar Ffordd Pentywyn, Llanrhos eu nodi fel rhai a allai fod ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar y map rhagweld, ond cadarnhaodd yr arolygon manwl a gomisiynwyd wedyn nad oedden ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Mae'r safleoedd wedi'u cynnwys o fewn yr adran hon er mwyn cyflawnrwydd.

## 4.2 Safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan (dyraniad tai/ysgol arfaethedig)




Cynigir dyrannu Safle Strategol yn Llanfairfechan ar gyfer defnydd cymysg: 150 o gartrefi newydd ac ysgol gynradd. Mae'r safle wedi'i leoli yn ardal Strategaeth y Gorllewin yn y CDLlN. Mae angen 360 o gartrefi newydd yn yr ardal hon dros gyfnod y CDLlN. Rhagwelir y bydd y safle'n bodloni cyfran uchel o'r angen am dai yn yr ardal. Yn is-ardal Gorllewin y CDLlN, mae nifer o safleoedd wedi'u graddio (safleoedd a ystyrir fel rhai y gellir eu darparu, ond nad ydynt cystal â'r safleoedd dyranedig arfaethedig) wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Safle 4 Hafod y Coed, Treforris Road, Dwygyfylchi.
- Safle 48 Tyddyn Bach, Graiglwyd Road, Penmaenmawr

- Safle 59 Tir i'r Gogledd Orllewin o Llys y Coed, Llanfairfechan
- Safle 86 Tir oddi ar Penmaenmawr Road, Llanfairfechan (Opsiwn 2)

Bydd y safleoedd uchod naill ai heb ddim neu ond ag ychydig o'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, fodd bynnag, nid oes gan unrhyw un ohonynt y gallu i fodloni'r angen am dai *a'r* ysgol newydd heb i faterion eraill effeithio ar y datblygiad, er enghraifft, problemau mwy cymhleth o ran y briffordd, effaith ar fioamrywiaeth, gorchudd coed a lleoliad yn yr hierarchaeth aneddiadau. Am y rhesymau hyn, ynghyd â'r rhesymau ychwanegol isod, dewiswyd safle 157 ar gyfer dyraniad yn hytrach na'r safleoedd wedi'u graddio.

Mae Safle 157 yn cynnwys y graddau a'r cyfanswm canlynol o'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas:

- Gradd 1: 0ha
- Gradd 2: 0ha
- Gradd 3a: 0ha
- Gradd 3b: 9.3ha
- Gradd 4: 7.7ha
- Gradd 5: 0ha

Byddai datblygu'r safle hwn yn arwain at golli 17.7ha o dir yng nghategorïau 3b a 4, **felly ni fyddai unrhyw faint o'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn cael ei golli o ganlyniad i'r dyraniad hwn.**

Fel rhan o gam Galwad am Safleoedd y CDLIN; cyflwynwyd 12 ar gyfer Llanfairfechan, 4 ym Mhenmaenmawr a 9 yn Nwygyfylchi. Aseswyd pob safle fel rhan o'r broses safle ymgeisiol. Gwaredwyd cyfran uchel o'r safleoedd hyn yn sgil cyfyngiadau neu bryderon sylweddol mewn perthynas â'r gallu i gyflawni. Daeth y broses i'r casgliad mai hwn oedd y safle â'r sgôr uchaf o ran cynaliadwyedd ac nad oedd unrhyw gyfyngiadau sylweddol a fyddai'n atal datblygiad.

Mae opsiwn amgen ym Mhenmaenmawr, a fyddai'n cyfrannu tuag at fodloni rhan o'r angen am dai ar gyfer yr ardal yn unig (hynny ydi, byddai angen

dyraniadau pellach). Ystyriwyd bod lleoliad y Safle Strategol hwn yn Llanfairfechan yn fwy cynaliadwy gyda chysylltiadau rhwydd â chanol Llanfairfechan a thu hwnt. Mae opsiwn amgen arall ar gael yn Nwygyfylchi, fodd bynnag, dim ond rhan o'r angen am dai ar gyfer yr ardal fyddai'r safle hwn yn ei fodloni eto, ac ystyrir Dwygyfylchi fel prif bentref Haen 1 yn y CDLIN. Mae llai o gyfleusterau a gwasanaethau yma, ac felly mae'r Safle Strategol yn Llanfairfechan mewn lleoliad mwy cynaliadwy o ran hyn. Mae'r safleoedd amgen yn yr is-ardal hon i'r CDLl yn cynnwys cyfuniad o'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas o wahanol raddau, rhywfaint o radd 2 a 3a, ond tir heb fod y gorau a'r mwyaf amlbwrpas yn bennaf. Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio (er nad yw'r rhain wedi'u pennu eto) ar safleoedd amgen yn Llanfairfechan. Nid oedd y rhain yn ddigon o faint i ddarparu ar gyfer ysgol newydd a'r tai gofynnol. Pe baent yn derbyn caniatâd, bydd nifer y cartrefi i'w darparu'n cael eu hadlewyrchu yn yr angen am dai ar gyfer y Safle Strategol.

Mae angen sylweddol am dai fforddiadwy ar draws pob ardal o'r Fwrdeistref Sirol. Ar gyfer gweddill y cynllun (2023-33), rhagwelir y bydd oddeutu 185 o aelwydydd angen tai fforddiadwy yn y Gorllewin (gweler PC11). Mae 67 o aelwydydd ar y gofrestr tai cymdeithasol ar hyn o bryd (01/2025) ac mae 43 o aelwydydd ar y gofrestr tai canolraddol (07/2024) ar gyfer is-ardal y Gorllewin. Mae'r perchennog tir a'r datblygwr ar gyfer y safle hwn wedi ymrwymo i ddarparu o leiaf 30% o dai fforddiadwy ar y safle, yn unol â gofynion PC10. Maent hefyd yn ymrwymo i ddarparu cyfradd fforddiadwy o 50% ar y safle drwy gydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a defnyddio cymorthdaliadau. Gallai'r safle felly ddarparu cyfraniad gwerthfawr ar gyfer tai fforddiadwy newydd yn yr ardal.


Caiff addysg gynradd yn Llanfairfechan ei darparu gan ddwy ysgol, sef Ysgol Pant y Rhedyn ac Ysgol Babanod Llanfairfechan. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn darparu addysg cyfrwng Saesneg ar gyfer Penmaenmawr. Mae'r ysgol ym Mhenmaenmawr (Pencae) yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr ardal. Mae CBSC wedi nodi Llanfairfechan fel prosiect ar gyfer blynyddoedd 4-6 y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae Ysgol Babanod Llanfairfechan wedi cyrraedd ei huchafswm o ran niferoedd, a

rhagwelir y bydd hyn yn parhau am y pum mlynedd nesaf. Mae Addysg CBSC wedi amlygu diffygion ansoddol yn ysgol Pant y Rhedyn.

Mae dau gais cynllunio ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau preswyl yn Llanfairfechan. Os cânt eu cymeradwyo, mae'n debygol y bydd y cynlluniau hyn yn arwain at fwy o ddisgyblion oedran cynradd na'r disgwyl. Ychydig o lefydd sydd ar gael ar y safleoedd ysgol presennol yn Llanfairfechan, ac ychydig o opsiynau sydd ar gael i'w hymestyn. Am y rheswm hwn, cynigir dyrannu tir ar gyfer ysgol newydd yn y CDLIN. Gweler Papur Cefndir 45 am fwy o fanylion.

Aseswyd pob un ohonynt ar gyfer eu defnyddio fel ysgol, ond am sawl rheswm, gan gynnwys cyfyngiadau o ran maint, y pellter o ganol Llanfairfechan ac argaeledd y safle, y dyraniad Safle Strategol arfaethedig yw'r unig opsiwn ymarferol.

## 4.3 Safle 103 Tir ym Mryniau, Llandudno (dyraniad cyflogaeth arfaethedig)




Dewiswyd Bryniau, Llandudno (safle 103) fel tir cyflogaeth B1. Mae'r safle'n 3.85 hectar ac wedi'i leoli i'r de ddwyrain o Landudno, rhwng yr A470 a'r B5115 (Ffordd Conwy), sy'n ffinio â ffin yr anheddiad ar ymyl ogleddol y safle. Fel yr eglurir yn nes ymlaen yn yr adran hon, hwn yw'r unig safle sy'n ddichonol ar gyfer dyraniad cyflogaeth (gan eithrio safleoedd yn Chwarel Llanddulas sydd hefyd wedi'u dyrannu), nid oes unrhyw safleoedd cyflogaeth wedi'u graddio.

Mae'r safle'n cynnwys y graddau a'r cyfansymiau canlynol o Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas:

- Gradd 1: 0ha
- Gradd 2: 3.85ha
- Gradd 3a: 0ha

- Gradd 3b: 0ha
- Gradd 4: 0ha
- Gradd 5: 0ha

Er bod y safle cyfan wedi'i nodi fel Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas Gradd 2, mae wedi'i leoli yn Llandudno, sydd â rôl isranbarthol bwysig ac yn cyfrannu at yr Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae dwy brif ffordd bob ochr i'r safle, sydd ar gyrion y dref ac yn hygyrch iawn, ac felly'n sgorio'n uchel yn y prawf cymalog. Cefnogir y lleoliad ar gyrion y dref hefyd yn y dystiolaeth a nodwyd yn PC19 Dadansoddiad Marchnad Masnachol Conwy (gweler paragraffau 2.47, 2.50, 2.62).

"Disgwylir y bydd mwy o angen am dwf graddfa fach, wedi ei ganolbwyntio o gwmpas canol trefi ac ystadau diwydiannol presennol mewn aneddiadau allweddol…."

"Yn gyffredinol roedd asiantau (masnachol) o'r farn, er bod cynnal safleoedd llai mewn ardaloedd gwledig yn bwysig, roedd y galw yn lleol iawn ac y dylai cyflenwad yn y dyfodol gael ei ganolbwyntio o gwmpas prif ardaloedd Llandudno, Bae Colwyn a Chonwy….."

"Mae darpariaeth B1 presennol wedi ei ganolbwyntio yn bennaf yn yr ardaloedd trefol, canol trefi a pharciau busnes ym mhrif ardaloedd y strategaeth ddatblygu trefol"

"Mae mewnwelediad gan asiantau masnachol yn awgrymu bod ystod eang o feddianwyr lleol wedi symud allan o leoliadau canol tref traddodiadol i barciau busnes oherwydd diffyg safleoedd swyddfeydd cynllun agored a modern yn y trefi. Fel y nodwyd uchod, mae'n amlwg bod busnesau lleol yn ffafrio symud i swyddfeydd y tu allan i'r dref oherwydd mynediad at yr A55 a meysydd parcio."

"Mae asiantau yn ystyried bod marchnad swyddfeydd Conwy yn cael ei ysgogi'n bennaf gan feddianwyr presennol sydd yn ehangu, sydd yn golygu eu bod yn ail-leoli mewn mannau eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gofod

swyddfeydd llwyddiannus yn gyffredinol wedi elwa o fod yn agos i gyffyrdd yr A55, ac oherwydd hynny mae tagfeydd yn gyfyngedig y tu allan i drefi ac mae digon o lefydd parcio am ddim. Yn hanesyddol, y prif leoliadau swyddfeydd oedd Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn, a'r ardaloedd amgylchynol yn darparu gofod swyddfeydd ychwanegol (ac eilaidd)."


Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan asiantau masnachol o fewn y Dadansoddiad Marchnad Masnachol yn dangos galw am safleoedd mewn lleoliadau hygyrch sy'n gallu darparu ar gyfer gofod swyddfa modern (lleoliadau y tu allan i'r dref yn ddelfrydol). Fodd bynnag, dylid cydbwyso hyn yn ofalus yn erbyn yr angen i ddarparu safleoedd cynaliadwy, cymalog ffafriol sy'n elwa o gysylltiadau cludiant da ac yn agos i amwynderau'r canol trefi allweddol hynny a enwir o fewn y Dadansoddiad Marchnad Masnachol fel lleoliadau cyflogaeth poblogaidd.

Aseswyd safleoedd eraill fel rhan o'r broses o ddethol safleoedd ac fe'u diystyrwyd yn sgil cyfyngiadau sylweddol. Gweler PC6 Cyflawni Safleoedd am restr lawn o'r safleoedd. Mae nifer o'r safleoedd a oedd â photensial cyflogaeth (er enghraifft y rhai a gyflwynwyd ar goridor yr A55 ym Mochdre) neu'n agos at safleoedd cyflogaeth (er enghraifft, Safle 92 Tir ger Parc Menter Quinton Hazell, Glan-y-Wern Road, Mochdre, Bae Colwyn) yn safleoedd maes glas o fewn y parth llifogydd. Roedd safle arall (Safle 183 Tir ger Cornel Glan Conwy), sy'n gymharol rydd o gyfyngiadau, yn parhau i fod o fewn y broses safleoedd ymgeisiol nes y cynhaliwyd asesiad pellach o'r dynodiad lletem las. Daethpwyd i'r canlyniad y dylai'r safle aros o fewn y lletem las. Felly, fe'i tynnwyd o'r broses safleoedd ymgeisiol yn y diwedd. Gan eithrio Chwarel Llanddulas (sydd hefyd yn cael ei gynnig ar gyfer dyraniad ond yn canolbwyntio ar B1c /B2 / B8 a defnyddiau eraill o natur fwy diwydiannol), yr unig dir addas sy'n weddill ar gyfer cyflogaeth a defnydd swyddfa B1 yn arbennig, yw'r Tir ym Mryniau.

Dylid nodi, os caiff ei ddyrannu, bydd Safle 103 Tir ym Mryniau'n aros y tu allan i'r ffin anheddiad (er mwyn atal datblygiad defnyddiau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth) ac ond yn cael ei ddatblygu at ddefnydd cyflogaeth yn unol â pholisi ED/2 yn y CDLIN.

I grynhoi felly, mae cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â risg llifogydd a/neu ffactorau amgylcheddol eraill ynghlwm â nifer o safleoedd cyflogaeth posibl yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o opsiynau tir priodol sydd ar ôl ar gyfer cyflogaeth yn yr ardaloedd twf allweddol a nodwyd o fewn strategaeth Cymru'r Dyfodol a'r CDLIN.  Yr unig ddau safle/lleoliad a ystyrir yn ymarferol yw chwarel Llanddulas (sydd hefyd yn ddyraniad arfaethedig ar gyfer cyflogaeth) ac mae'r safle hwn ar gyrion Llandudno.  Am y rhesymau uchod, ystyrir ei fod yn angenrheidiol ac yn rhesymol dyrannu'r tir hwn ar gyfer cyflogaeth fel rhan o'r CDLIN.

## 4.4 Safle 91 Tir oddi ar Ffordd Pentywyn, Llanrhos (dyraniad tai arfaethedig)




Y safle hwn yw'r prif ddyraniad strategol ar gyfer ardal y Creuddyn a bydd yn darparu oddeutu 110 o gartrefi, man agored cyhoeddus a gwelliannau teithio llesol.

Mae’r dyraniad CDLIN llawn yn cynnwys dau safle ychwanegol bach (50 a 174) i hwyluso llwybr teithio llesol drwy’r ddau safle, fodd bynnag, nid oedd angen cynnal arolwg ALC ar gyfer dim un o’r rhain gan nad oeddent ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.

Nodwyd y safle yn y Strategaeth a Ffefrir ac mae bellach wedi gostwng o ran maint/nifer yr unedau. Mae cyfyngiadau sylweddol yn Llandudno ac ardal ehangach y Creuddyn yn sgil risg llifogydd, topograffeg a dynodiadau, felly ychydig o dir addas ar gyfer datblygiad sydd ar gael.


Mae’r safle’n cynnwys y graddau a’r cyfansymiau canlynol o Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas:

- Gradd 1: 0ha
- Gradd 2: 0ha
- Gradd 3a: 0ha
- Gradd 3b: 6.1ha
- Gradd 4: 0ha
- Gradd 5: 0ha

Byddai datblygu’r safle hwn yn arwain at golli 6.1ha o dir yn y categori Gradd 3b, **felly ni fydd unrhyw Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn cael ei golli yn sgil y dyraniad hwn.**

Mae Ysgol Deganwy ac Ysgol Awel y Mynydd yn cynnig darpariaeth gynradd ar gyfer Llanrhos ac nid oes cyfyngiadau o ran capasiti na ellir mynd i’r afael â hwy.

## 4.5 Safle 203: Queens Road, Llandudno (dyraniad tai arfaethedig)




Cynigir dyrannu Safle Strategol yn Llanrhos ar gyfer tai a chysylltiadau teithio llesol gan gynnwys: 70 o gartrefi newydd. Rhagwelir y bydd y safle'n bodloni cyfran uchel o'r angen am dai yn yr ardal. Nid yw'r safle hwn yn rhan o'r Lletem Las. Yn is-ardal y Creuddyn yn y CDLIN, mae nifer o safleoedd wedi'u graddio (safleoedd a ystyrir fel rhai y gellir eu darparu, ond nad ydynt cystal â'r safleoedd dyranedig arfaethedig) wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Safle 31 Tir gerllaw Tawelfan, Tŷ Du Road, Glan Conwy
- Safle 40 Tir ger Bryn Lupus Road, Llanrhos, Llandudno (Opsiwn 2)
- Safle 192 Tir oddi ar Ffordd Llanrwst, Conwy

Nid oes unrhyw faint o’r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar safle 31 a 192, ond mae’n bosib’ bod safle 40 ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn ôl y map rhagweld. Fodd bynnag, wrth ystyried pob un o’r safleoedd hyn, mae sawl rheswm sy’n gwneud safle 203 yn fwy ffafriol ar gyfer dyraniad, er enghraifft, materion yn ymwneud â mynediad i’r briffordd, effeithiau dynodiad tirwedd hanesyddol, a’i leoliad o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Am y rhesymau hyn (ynghyd â’r rhesymau ychwanegol isod), dewiswyd safle 203 ar gyfer dyraniad yn hytrach na’r safleoedd wedi’u graddio.

Mae Safle 203 yn cynnwys y graddau a’r cyfansymiau canlynol o’r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, yn ôl yr arolwg sydd wedi’i ddilysu:


- Gradd 1: 0ha
- Gradd 2: 1.6ha
- Gradd 3a: 2.6ha
- Gradd 3b: 0ha
- Gradd 4: 0ha
- Gradd 5: 0ha

Byddai datblygu’r safle hwn yn arwain at golli 1.6ha o’r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yng Ngradd 2 a 2.6ha yng Ngradd 3a.

Er bod y safle’n cynnwys Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas Gradd 2 glas, mae wedi’i leoli yn Llandudno, sydd â rôl isranbarthol bwysig ac yn cyfrannu at yr Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae’r safle hefyd wedi’i leoli ar gyrion y dref ac yn hygyrch iawn, ac felly’n sgorio’n uchel yn y prawf cymalog. Gwaredwyd rhai o’r safleoedd eraill yn sgil cyfyngiadau neu bryderon sylweddol mewn perthynas â’r gallu i gyflawni. Mae’r safle hefyd mewn lleoliad cynaliadwy ar gyrion y ffin anheddiad presennol. Daeth y broses i’r casgliad mai hwn oedd y safle â’r sgôr uchaf o ran cynaliadwyedd ac nad oedd unrhyw gyfyngiadau sylweddol a fyddai’n atal datblygiad.

